

24 CATHEDRAL ROAD

Y Pwyllgor Cyllid

Penodi Cadeirydd ac Aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Gorffennaf 2017

OFFICE
VILIO CYMRU



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Cyllid

**Penodi Cadeirydd ac Aelodau
anweithredol Bwrdd Swyddfa
Archwilio Cymru**

Gorffennaf 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Y Pwyllgor Cyllid

Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 19; swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10 a 18.11; ac ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â Chronfa Gyfunol Cymru.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Simon Thomas AC (Cadeirydd)
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Neil Hamilton AC
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Mike Hedges AC
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Steffan Lewis AC
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Eluned Morgan AC
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Nick Ramsay AC
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



David Rees AC
Llafur Cymru
Aberafan

Cynnwys

Argymhellion	5
01. Y cefndir	6
02. Rôl y Pwyllgor Cyllid.....	7
03. Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru.....	9
04. Aelodau anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru	10

01. Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn derbyn y cynnig i ymestyn contract Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, Isobel Garner, am gyfnod o dair blynedd. Tudalen 9

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid penodi Steven Burnett, Alison Gerrard a Bill Richardson yn Aelodau anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru.Tudalen 10

02. Y cefndir

1. Ar 5 Mawrth 2013, pasiodd y Cynulliad **Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013** (y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn nodi trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2013.
2. Mae'n werth nodi bod y Ddeddf yn rhoi llawer o gyfrifoldebau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys penodi pum Aelod anweithredol i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru (gan gynnwys Cadeirydd y Bwrdd). Mae'r Cynulliad hefyd yn gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer taliadau cydnabyddiaeth mewn cysylltiad â'r Cadeirydd a'r aelodau anweithredol.
3. O dan **Reol Sefydlog 18.10(v)** mae'n ofynnol i'r Pwyllgor cyfrifol gyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â phenodi Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. Y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) sy'n gyfrifol am oruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru.
4. Yn unol â'r Ddeddf, ni chaiff Aelodau anweithredol y Bwrdd fod yn y swydd am fwy na phedair blynedd ac ni chaniateir iddynt gael eu penodi fwy na dwywaith.¹ Er bod y Ddeddf yn caniatáu darpariaeth i ymestyn contract Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru,² ni wneir y ddarpariaeth hon ar gyfer yr Aelodau anweithredol eraill.
5. Ar ôl i un Aelod o'r Bwrdd ymddiswyddo ym mis Tachwedd 2014, penodwyd Aelod newydd o'r Bwrdd ym mis Mawrth 2015 am gyfnod o bedair blynedd.

¹ Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 6

² Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 5(3)

03. Rôl y Pwyllgor Cyllid

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

6. Dyma'r tro cyntaf ers penodi'r grŵp cyntaf o Aelodau'r Bwrdd yn 2013 iddi fod yn bosibl i Aelodau'r Bwrdd gael eu penodi am ail dymor. Wrth drafod hyn, nododd y Pwyllgor fod y Ddeddf yn caniatáu yn benodol ar gyfer penodi Aelodau anweithredol ddim mwy na dwywaith, ond bod y Ddeddf hefyd yn nodi bod yn rhaid penodi Aelodau anweithredol 'ar gasgliadau cystadleuaeth deg ac agored'. O safbwynt penodi'r Cadeirydd, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid dewis Cadeirydd y Bwrdd o blith yr Aelodau anweithredol, ond mae'n cynnwys darpariaeth benodol ar gyfer ymestyn contract y Cadeirydd.

7. O gofio nad yw'r Ddeddf yn caniatáu ar gyfer ymestyn penodiad Aelodau anweithredol (ac eithrio'r Cadeirydd),³ penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymarfer recriwtio llawn.

8. Cafodd aelodau'r Bwrdd a oedd yn agosáu at ddiwedd eu tymor pedair blynedd cyntaf eu gwahodd i gael eu cyfweld gyda'r ymgeiswyr eraill ar y rhestr fer.

Y broses recriwtio

9. Hysbysebodd y Pwyllgor am ymgeiswyr a oedd â diddordeb mewn gwneud cais i fod yn Aelodau o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhoddwyd hysbysebion ychwanegol yn y manau a ganlyn:

- Jobs Wales;
- The Times ar-lein;
- The Guardian ar-lein;
- Golwg 360;
- Gwefan Public Finance;
- Gwefan Llywodraeth Cymru;
- Women on Boards.

10. Cyhoeddwyd yr hysbyseb ar 24 Ebrill 2017 gyda dyddiad cau o 19 Mai 2017. Daeth 44 o geisiadau i law gan 12 o fenywod a 32 o ddynion. Dewiswyd wyth ymgeisydd i'w cyfweld, gan gynnwys tri aelod presennol y Bwrdd, ond tynnodd un yn ôl cyn y cyfweiliad.

11. Cynhaliwyd y cyfweiliadau ar 3 a 10 Gorffennaf 2017. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr roi cyflwyniad byr ac fe'u holwyd ar y meini prawf a nodwyd yn y disgrifiad swydd. Dyma aelodau'r panel:

- Simon Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid;
- Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Gareth Watts, Pennaeth Archwilio Mewnol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

³ Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 5(3)

12. Yn ogystal, roedd y Pwyllgor yn teimlo'i bod yn bwysig i'r panel elwa o brofiad a gwybodaeth Cadeirydd presennol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly estynnwyd gwahoddiad i Isobel Garner fod ar y panel i arsylwi.

04. Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

13. Ar ôl y broses recriwtio gychwynnol, penodwyd Isobel Garner yn Gadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Hydref 2013.

14. Wrth edrych ar gyfansoddiad y Bwrdd cyn cychwyn y broses recriwtio, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod rhinwedd mewn ystyried ymestyn tymor y Cadeirydd presennol, yn enwedig gan fod trefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru o dan y Ddeddf yn dal yn gymharol newydd.

15. Ar ôl trafod â'r Cadeirydd, ystyried y broses arfarnu ac ymgynghori â'r Prif Weinidog⁴, cytunodd y Pwyllgor i ymestyn contract y Cadeirydd presennol. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ymgynghori â'r 'Person Priodol'⁵ o ran y tâl a'r telerau ac amodau cyflogaeth.⁶

16. Er bod y Ddeddf yn caniatáu ar gyfer estyniad o bedair blynedd ychwanegol, cynigiodd y Pwyllgor estyniad am gyfnod o dair blynedd.

17. Ysgrifennodd y Prif Weinidog at y Pwyllgor ar 12 Mehefin 2017 i gadarnhau ei fod yn fodlon ar y cynnig o dair blynedd o estyniad. Ysgrifennodd y 'Person Priodol', sef y Cyfarwyddwr Llywodraethu yn Llywodraeth Cymru, hefyd at y Pwyllgor i gadarnhau ei fod yn fodlon ar y telerau a'r amodau, ac yn fodlon y byddai'r trefniadau cydnabyddiaeth yn aros yr un fath.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn derbyn y cynnig i ymestyn contract Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, Isobel Garner, am gyfnod o dair blynedd.

⁴ Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 5(2)

⁵ Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 9, yn ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymgynghori â 'pherson priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus' ar y trefniadau tâl a thelerau eraill ynghylch penodi Cadeirydd ac Aelodau anweithredol. Yn 2013, penderfynodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y pwyllgor â chyfrifoldeb ar y pryd) ei bod yn briodol ymgynghori â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru ar ôl i swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus gadarnhau nad oedd y penodiadau dan sylw yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiynydd.

⁶ Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 9 (1)

05. Aelodau anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

- 18.** Yn dilyn y broses recriwtio deg ac agored, dewiswyd tri ymgeisydd i fod yn Aelodau anweithredol o fis Hydref 2017.
- 19.** Rhoddwyd statws wrth gefn i ddau ymgeisydd arall am gyfnod o 12 mis. Gellir cynnig swydd i ymgeiswyr wrth gefn pe byddai aelod o'r Bwrdd yn ymddiswyddo, neu'n methu ag ymgymryd â'i ddyletswyddau mwyach am unrhyw reswm arall.
- 20.** Cadarnhaodd y 'Person Priodol' ei fod yn fodlon ar y telerau a'r amodau a gynigiwyd ar gyfer yr Aelodau anweithredol, gan gynnwys y cynnig y dylai'r trefniadau tâl yn aros yr un fath ar gyfer Aelodau anweithredol.
- 21.** Dewiswyd y tri ymgeisydd a ganlyn:

Bill Richardson - mae gan Mr Richardson 15 mlynedd o brofiad o weithredu ar lefel Bwrdd ac mae ganddo brofiad fel Aelod o'r Bwrdd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn ogystal â phrofiad blaenorol mewn llywodraeth ganolog a swyddi ymgynghorol. Mae ei brofiad yn y gorffennol yn cynnwys arbenigedd ym maes archwilio, cyllid a threthiant. Dyma benodiad cyntaf Mr Richardson i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac mae wedi cael cynnig swydd tan fis Mehefin 2021.

Alison Gerrard - mae gan Ms Gerrard brofiad blaenorol ar lefel cyfarwyddwr, gan gynnwys profiad mewn llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol yn y sector cyhoeddus. Mae gan Ms Gerrard brofiad helaeth yn gweithio gyda'r GIG yng Nghymru ac mae'n aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Ms Gerrard wedi cael cynnig swydd tan fis Mehefin 2021.

Steven Burnett - mae gan Mr Burnett brofiad blaenorol ar lefel Prif Weithredwr ac mae wedi ymgymryd ag amryw o swyddi Anweithredol gan gynnwys yn Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth sy'n rhan o Drysorlys Ei Mawrhydi, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, Liverpool Women's NHS Foundation Trust a'r Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau. Cafodd Mr Burnett ei benodi i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2013, ac mae wedi gweithredu fel Cyfarwyddwr Annibynnol Uwch yn ystod y cyfnod hwn. Hwn fydd ail benodiad Mr Burnett i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, ac mae wedi cael cynnig swydd tan fis Mawrth 2019.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid penodi Steven Burnett, Alison Gerrard a Bill Richardson yn Aelodau anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru.